# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-25-2005):

### Dyddiad y cyfarfod: 18 Hydref 2005

### Amser y cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-24-2005

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf felly awgrymodd y Cadeirydd y dylid mynd ati yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1149 - The Seed (Registration, Licensing and Enforcement) (Wales) Regulations 2005

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y Gorchymyn cyntaf o blith y chwech Offeryn Statudol ar yr agenda yr oedd pwyntiau i'w hadrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 11.7. Gofynnodd i'r Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol roi sylwadau.

4.2 Cyflwynodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol ei hadroddiad drafft gan awgrymu bod y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog newydd 11.7(viii), yn tynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith na chafodd y Rheoliadau hyn eu drafftio'n ddwyieithog. Yn y gorffennol, byddai'r Pwyllgor wedi nodi’r pwynt hwn o dan "Sylwadau" neu ym mharagraff cyntaf ei adroddiad, ond câi ei gynnwys bellach fel pwynt i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

4.3 Nodwyd nad oedd testun Cymraeg ar gael gan fod y Gweinidog o'r farn ei bod yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol paratoi drafft dwyieithog, a hynny oherwydd hyd a natur gymhleth y testun ac oherwydd na fyddai'r ddeddfwriaeth ond yn berthnasol i nifer fechan o gynhyrchwyr hadau yng Nghymru. Nodwyd nad oedd unrhyw faes yn rhy gymhleth i fynd i'r afael ag ef drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnodd yr Aelodau a oedd meini prawf neu ganllawiau ar gael i'r Gweinidogion eu dilyn wrth benderfynu paratoi deddfwriaeth yn Saesneg yn unig. Os oes meini prawf o'r fath ar gael, dylai'r

Pwyllgor gael copi ohonynt. Dywedodd y Cynghorwyr Cyfreithiol nad oeddynt yn gwybod am unrhyw ganllawiau neu feini prawf o'r fath. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, byddai'n ddigonol pe bai Gweinidog yn penderfynu "…y byddai'n amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i'r Gorchymyn fod yn y ddwy iaith". Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Trefnydd i ofyn am fwy o wybodaeth. Camau i'w Cymryd: Cadeirydd/Cynghorydd Cyfreithiol/Clerc.

4.4 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.5 LC1152 - Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005

Tynnodd y Cynghorydd Cyfreithiol sylw'r Aelodau at ddau fater:

- dyma'r tro cyntaf yr oedd adroddiad y Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig o dan Reol Sefydlog newydd 11.7(vii) at y defnydd o iaith rhyw benodol mewn Rheoliadau ac felly byddai modd cywiro'r iaith;
- roedd angen ychwanegu brawddeg at adroddiad y Pwyllgor yn datgan bod y pwyntiau a godwyd o dan Reol Sefydlog 11.7 yn wallau drafftio neu wallau teipio bach a bod modd eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym hwn.

4.6 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.7 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1144 - Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005

LC1145 - Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005

LC1146 - Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005

LC1147 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadau heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005

LC1148 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005

LC1151 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005

LC1153 - The Beet Seed (Wales) Regulations 2005

LC1154 - The Vegetable Seed (Wales) Regulations 2005

LC1155 - The Cereal Seed (Wales) Regulations 2005

LC1157 - Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005

**Pwynt gweithredu**

4.3 LC1149 - The Seed (Registration, Licensing and Enforcement) (Wales) Regulations 2005: cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Trefnydd i ofyn a oes unrhyw feini prawf neu ganllawiau ar gael i'r Gweinidogion eu dilyn wrth benderfynu a yw'n amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol paratoi deddfwriaeth yn y ddwy iaith.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 1 Tachwedd 2005.